# Mapiau

| | |
|---|---|
| GWENLLIAN | Rydyn ni wedi bod yn cerdded am dair awr Berwyn! Fe wnes di ddweud byddai'n cymryd un! Fyddwn ni'n hwyr i'r barbiciw! |
| BERWYN | Ia, ia. Wn i, wn i. Beth am fynd i'r caffi i drïo gweld beth aeth o'i le? |
| GWENLLIAN | Be - y caffi?! Felly rydyn ni dim ond hanner ffordd! |
| BERWYN | Ydyn. Dw i ddim yn deall y peth. Fe wnes i blotio'r cyfeirlin cywir. |
| GWENLLIAN | Grrrr! |
| AL GEBRA | Roedd hi'n amser camu o'r tywyllwch a datrys dirgelwch y ddau gi bach a aeth i'r coed…<br><br>Al yw'r enw. Ditectif Preifat.<br><br>Doedd darllen map ddim yn un o dalentau Berwyn - roedd hynny'n amlwg! Roedd y ddau gi bach wedi cymryd mwy o droadau anghywir na fy mam ar foped. Gymerais i olwg agosach…<br><br>Hmmm, roedd y map wedi ei lunio i'r raddfa o un i bum can mil.<br><br>Roeddwn i'n gwybod fod can centimetr yn hafal i un metr – oedd yn golygu bod un centimetr ar y map yn bum mil o fetrau. |
| GWENLLIAN | Mae pob centimetr ar y map yn golygu cerdded pum cilometr, ie?<br><br>Sori! |
| AL GEBRA | Fe wnes i ddyfalu eu bod nhw'n cerdded tua pum cilometr yr awr. |


© Copyright 2016

| | |
|---|---|
| | Felly os oedden nhw wedi cerdded pum cilometr yr awr am dair awr, roedden nhw wedi cerdded... |
| GWENLLIAN | Un deg pump cilometr! |
| AL GEBRA | Bingo. |
| | Ar fap â graddfa o un centimetr i bum cilometr, roedd yr un deg pum cilometr gerddon nhw ‘mond yn dri chentimetr - ac roedd y ci bach yma wedi cynllunio taith o tua chwe chentimetr. |
| GWENLLIAN | Ond mae hynny’n dair awr arall o gerdded! Mae’r barbiciw’n dechrau mewn awr a dw i ar lwgu! |
| BERWYN | Aw! Nes i ddweud fy mod i’n sori! |
| AL GEBRA | Hmm, dim pwynt wyth centimetr. Mae lluosi hwn gyda phum cilometr yn bedwar cilometr. Os gerddwch chi ar gyflymder o bum cilometr yr awr, fe gymerith hi… |
| BERWYN | Lai nag awr i gyrraedd yn ôl! Ti’n lejynd Al! Hei, pam na ddei di i’r barbi…. |
| AL GEBRA | Na, dw i’n golchi fy het! |
| | Cês wedi cau. |


© Copyright 2016